# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Arnold House**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

16/02/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021._**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Arnold House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion a Phlant Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Procare Wales Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei ailgofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff yr unigolion eu cefnogi gan staff gofal sy'n deall eu hanghenion gofal a chymorth emosiynol, corfforol ac ymddygiadol. Mae'r broses cyn derbyn yn asesu ac yn ystyried eu hanghenion gofal a chymorth, eu cydweddoldeb ac a all y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cynlluniau personol, yr asesiadau risg a'r canllawiau ar reoli ymddygiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am anghenion yr unigolion o ran eu hymddygiad a'u hiechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae'r dogfennau'n rhoi strategaethau clir i'r staff gofal o ran y ffordd y dylid darparu gofal a chymorth. Caiff y bobl ifanc eu cefnogi i fynychu eu lleoliadau addysg yn ôl y gofyn, ac mae'r unigolion yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a sgiliau byw'n annibynnol, a chânt eu hannog i fyw bywyd iach. Mae'r unigolion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn hoffi byw yn y cartref. Mae eu hystafelloedd wedi'u personoli, a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n amserol. Mae gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cwblhau ac mae'r staff gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu, yn ogystal â chael hyfforddiant a chael eu goruchwylio. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth, yn cadw mewn cysylltiad â'r rheolwr, a chaiff archwiliadau monitro ansawdd eu cwblhau. Mae angen gwneud rhagor o welliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaeth, datblygu asesiad y darparwr a sicrhau y caiff y staff eu goruchwylio yn unol â'r amserlen benodedig.

## Llesiant

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r unigolion yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Mae datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael i'r unigolion, ac mae'r dogfennau wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar. Gall yr unigolion gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Dywedodd yr unigolion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel, bod y staff yn eu parchu, bod modd iddynt gymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu, a'u bod yn gwybod â phwy i siarad i godi pryder. Cadarnhaodd y staff gofal hyn hefyd, gan ddweud bod yr unigolion yn cael eu hannog i fynegi eu barn a bod y staff yn gwrando arnynt.

Mae gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r unigolion. Mae gwybodaeth am y ffordd y caiff eu hanghenion o ran eu hymddygiad a'u llesiant meddyliol, corfforol ac emosiynol eu diwallu yn cael ei chynnwys yn eu ffeiliau gofal. Gall yr unigolion gael gafael ar wasanaethau dadansoddwr ymddygiad y gwasanaeth, yn ogystal â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Mae'r staff gofal yn annog yr unigolion i fyw bywyd iach ac yn eu cefnogi i fynd i apwyntiadau personol.

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod yr unigolion yn cael eu diogelu rhag niwed. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion, sy'n cynnwys polisïau diogelu, chwythu'r chwiban, gwrth-fwlio a chwyno. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion, ac mae gwiriadau recriwtio manwl yn cael eu cwblhau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff darpariaeth addysgol ei chefnogi yn ôl yr angen, ac mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden cymunedol. Mae'r staff gofal yn cludo'r bobl ifanc i'w sefydliadau addysg, yn cefnogi'r unigolion i ddatblygu a gwella eu sgiliau byw'n annibynnol, ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden sy'n bwysig iddynt.

Mae'r unigolion yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis, maent wedi'u dodrefnu'n addas, ac maent yn cynnwys cyfleusterau sy'n annog eu hannibyniaeth ac yn eu galluogi i gael amser preifat. Mae cynlluniau ar waith i wneud gwaith adnewyddu yn y dyfodol, ynghyd â gwaith atgyweirio a nodwyd, a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol eu cwblhau.

## Gofal a Chymorth

Mae proses cyn derbyn y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth, ac mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y ffordd y dylid diwallu anghenion a chyflawni canlyniadau'r unigolion. Mae proses cyn derbyn a dogfennau'r gwasanaeth yn ystyried cydweddoldeb unigolion, yr effaith bosibl ar bobl eraill sy'n byw yn y cartref ac a ellir diwallu eu hanghenion. Mae'r cynlluniau personol, yr asesiadau risg a'r canllawiau ar reoli ymddygiad yn gynhwysfawr. Maent yn rhoi canllawiau manwl i'r staff gofal er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â'i ddewisiadau personol. Mae'r dogfennau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae newidiadau i anghenion yr unigolion o ran iechyd ac ymddygiad yn cael eu trafod â'r gwasanaethau comisiynu. Mae'r gwasanaeth wrthi'n sicrhau y caiff y wybodaeth gynhwysfawr a gafwyd yn ystod y cam cyn derbyn a'r cam asesu cychwynnol ei chynnwys mewn dogfen asesu darparwr. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi gofyn am gopi o'r ddogfen ar ôl iddi gael ei chwblhau.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau y caiff anghenion yr unigolion eu diwallu a bod rhywun yn gwrando arnynt. Dywedodd dau unigolyn wrthym fod y staff gofal yn eu hannog a'u cefnogi i gyfrannu at y gwaith o gynllunio eu gofal, a chadarnhawyd hyn gan bob aelod o'r staff gofal y cawsom sgwrs â nhw. Dywedodd yr unigolion wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o'u dewis, ac roedd gwahanol ddogfennau a thrafodaethau â'r staff gofal yn cadarnhau hyn. Roedd y dogfennau hefyd yn pwysleisio bod yr unigolion yn cyflawni tasgau beunyddiol er mwyn gwella ac annog eu sgiliau byw'n annibynnol ymhellach. Dywedodd yr unigolion fod y staff yn wych, yn llawn hwyl ac yn barchus. Gwnaeth dogfennau ysgrifenedig mewn ffeiliau gofal a thrafodaethau â'r unigolion a'r staff gofal bwysleisio  bod cymorth eirioli ar gael, ac mae'n cadarnhau bod yr unigolion yn cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allanol a gwasanaethau'r dadansoddwr ymddygiad yn ôl yr angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gweithdrefnau diogelu perthnasol ar waith. Gwnaethom edrych ar y polisi diogelu a'r polisi amddiffyn plant, a gwelsom eu bod yn hygyrch i'r holl staff. Mae cofnodion ysgrifenedig ac electronig yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu yn amserol, ac yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelu. Dywedodd y staff gofal wrthym fod hyfforddiant diogelu perthnasol ar gael iddynt ac roedd y cofnod hyfforddiant yn cadarnhau hynny. Maent hefyd yn dweud eu bod yn deall pwysigrwydd sicrhau bod yr unigolion wedi'u hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Dywedodd yr unigolion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth ac y byddant yn barod i siarad ag aelod o'r staff gofal pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Gwnaethom argymell mân welliannau i'r polisi chwythu'r chwiban a'r polisi diogelu, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain cyn cwblhau'r adroddiad arolygu.

Caiff arferion hylan eu hyrwyddo ac mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint. Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau, sy'n cynnwys rheoli brigiad o achosion o COVID-19. Mae'r cartref wedi llwyddo i reoli achosion diweddar o COVID-19. Roedd trafodaethau â'r staff yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi rheoli heintiau, a bod ganddynt ddigon o gyfarpar diogelu personol a nwyddau glanhau. Yn ystod y daith rithwir o amgylch y cartref, gwelsom fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol.

Yn gyffredinol, gwelwyd arferion diogel mewn perthynas â rheoli'r broses o roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy gwyliadwrus wrth gwblhau siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) er mwyn sicrhau y caiff y gweithdrefnau cywir eu dilyn. Gwnaethom edrych ar siart MAR pob unigolyn a gwelsom feysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd y rhain yn ymwneud ag archwilio siartiau MAR, cofnodi gwybodaeth mewn perthynas â meddyginiaeth Pro Re Nata (PRN) yn gywir ac yn gyson, a sicrhau bod gwrthlofnodion y staff yn cael eu cofnodi'n gyson pan gaiff presgripsiynau eu hysgrifennu â llaw. Ni chyflwynwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn yr achos hwn, gan fod y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol wedi ymateb mewn ffordd ragweithiol a mynd i'r afael â'r materion a godwyd gyda'r tîm o staff, gan wneud gwelliannau i'r broses archwilio meddyginiaeth cyn cwblhau'r adroddiad arolygu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r unigolion yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn darparu llety i hyd at naw unigolyn rhwng 16 a 64 oed. Mae'n cynnwys saith fflat hunangynhwysol, y mae pump ohonynt ar gyfer un unigolyn ac y mae dwy ohonynt ar gyfer dau unigolyn. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn pentref sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i drefi a dinasoedd mwy o faint, sy'n galluogi'r unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gwnaethom gynnal arolygiad rhithwir o'r safle a gwelsom y rhan fwyaf o'r llety. Mae gan bob unigolyn ystafell wely sy'n cynnig ei ofod preifat ei hun iddo, yn ogystal â chegin/ardal fyw ac ystafell ymolchi. Gall yr unigolion ddewis sut yr hoffent bersonoli eu hystafelloedd, a gwelsom ystafelloedd a oedd wedi'u haddurno a'u dodrefnu’n addas. Roedd ardaloedd y gegin yn cynnwys gwahanol offer sy'n hyrwyddo ac yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol yr unigolion ymhellach. Dywedodd yr unigolion y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, eu bod yn fodlon ar faint eu fflat a'u bod wedi helpu i ddewis lliwiau paent ar gyfer eu hystafelloedd. At ei gilydd, roedd pob rhan o'r cartref a welsom yn lân ac yn daclus. Nid oes gan y cartref ardd a dim ond nifer cyfyngedig o leoedd parcio sydd ar gael.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn dweud bod problemau cynnal a chadw yn cael eu nodi, eu cofnodi a'u datrys yn amserol yn gyffredinol. Yn ystod y daith rithwir, gwelsom fod angen gwneud rhai mân welliannau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y rhain wedi'u nodi yn ystod archwiliadau iechyd a diogelwch diweddar, ac roedd adroddiadau'r unigolyn cyfrifol yn cadarnhau hyn. Gwnaeth y rheolwr dynnu sylw at y ffaith bod cyfyngiadau cenedlaethol COVID-19 wedi effeithio ar ba mor aml y gellir cwblhau gwaith cynnal a chadw, a dywedodd y bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted ag y daw'r cyfnod clo i ben. Mae'r rheolwr yn dweud bod y darparwr yn cefnogi newid a buddsoddiad ariannol. Mae'r trafodaethau â'r staff gofal a'r cofnodion ysgrifenedig yn cadarnhau materion yn ymwneud â diogelwch tân, megis profi larymau, offer tân, cyfarpar ac offer trydanol ac yn dangos eu bod yn cael eu cwblhau o fewn eu hamserlenni a nodwyd.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg, ac maent yn sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd i'r unigolion. Mae rheolwr y gwasanaeth mewn cysylltiad rheolaidd â'r unigolyn cyfrifol a'r uwch-reolwyr i drafod amcanion y gwasanaeth a chynnydd yr unigolion mewn perthynas â'u hanghenion ymddygiadol a'u nodau personol. Mae'n dweud eu bod yn siarad yn rheolaidd, ei fod yn cael*“excellent support”* (cefnogaeth heb ei hail), a'i fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau a wneir am y gwasanaeth mewn ffordd agored ac onest.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr yn disgrifio'n gywir y trefniadau presennol sydd ar waith mewn perthynas â llety'r gwasanaeth, ynghyd â'i broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a'r ffyrdd y mae'n gweithio tua at ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau goruchwylio a hyfforddi'r gwasanaeth ar gyfer y staff gofal. Gwnaethom argymell y dylai gynnwys manylion ychwanegol mewn perthynas â'r strwythur staffio presennol ac y dylid addasu'r manylion o ran pa mor aml y caiff y staff eu goruchwylio. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod y broses arolygu.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus trwyadl. Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â phroses sicrhau ansawdd y gwasanaeth a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n amserol. Mae adroddiadau manwl yr unigolyn cyfrifol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gweithredol ac yn nodi meysydd lle mae angen gwneud gwelliannu. Mae trafodaethau â'r unigolion, y staff gofal a'r tîm rheoli yn cadarnhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, er y nodir bod cyfyngiadau COVID-19 cenedlaethol wedi effeithio ar ba mor aml y gellir ymweld â'r cartref. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn cofnodi cwynion ac yn mynd i'r afael â nhw yn amserol, ac mae'r polisi a'r weithdrefn gwyno yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall y cyhoedd gwyno.

Mae niferoedd priodol o staff gofal addas a chymwysedig ar gael ac maent yn cael eu goruchwylio a'u hyfforddi. Mae'r cofnodion ar gyfer y rota staff yn dangos bod sifftiau yn cael eu staffio fel sydd ei angen, a bod yr unigolion yn cael gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn ddigon parod i gwblhau sifftiau yn ychwanegol at eu horiau contract. Mae'r gwiriadau recriwtio staff manwl yn gyfredol, ac mae'r staff gofal newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu fewnol y gwasanaeth ynghyd â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofnod hyfforddiant y staff yn dangos bod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant craidd ar gael i'r staff, a dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd yr hyfforddiant a pha mor aml y caiff ei gynnal. Mae'r staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Serch hynny,

gwnaethom argymell y dylid gwneud gwelliant er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio yn unol ag amserlen benodedig y gwasanaeth, a chafodd hyn ei gydnabod gan y rheolwr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu fel blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/04/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi